# Polisi Gorfodi Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

### Adran yr Economi a Chynllunio

Gall y Polisi hwn fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau a chyfryngau ar gais

13 Mai 2024

Fersiwn 5

# Fersiwn

## Fersiwn 3

Newidiadau: Yr Adran Dai a Gwarchod y Cyhoedd - Polisi Gorfodi Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

Adolygwyd gan: P Osborne

Dyddiad adolygu: Mai 2015

## Fersiwn 4

Newidiadau: Adran yr Amgylchedd a Chynllunio - Polisi Gorfodi Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

Adolygwyd gan: P Osborne

Dyddiad adolygu: Chwefror 2017

## Fersiwn 5

Newidiadau: Economi a Chynllunio - Polisi Gorfodi Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

Adolygwyd gan: P Osborne / B Pomeroy

Dyddiad adolygu: Medi 2023

Adolygiad Nesaf: Medi 2025

# Cofnod Newid, Diweddariad ac Adolygiad

## Diwygiad 1

Diweddarwyd gan (Enw a Theitl): P Osborne (EHO)

Dyddiad: 20 Mawrth 2017

Fersiwn 4 - Cytunwyd gyda'r Rheolwr Gwasanaeth ac o ganlyniad ei ganiatáu gan benderfyniad dirprwyol yr Aelod Arweiniol 20 Mawrth 2017.

Mae'r diwygiadau wedi'u crynhoi fel y canlynol:-

- cywiriadau gramadegol
- diweddaru'r derminoleg i adlewyrchu'r newidiadau yn strwythur adrannau'r Cyngor a threfniadau adrodd cysylltiedig
- mewnbynnu cymal ac atodiad cysylltiedig sy'n cyfeirio at bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y mae angen rhoi sylw iddynt wrth ystyried gorfodi yn y meysydd pwnc penodol hynny.

## Diwygiad 2

Diweddarwyd gan (Enw a Theitl): P Osborne (EHO)

Dyddiad: 16 Awst 2017

Adolygiad i’r atodiad i ddiweddaru’r rhestr is-bolisïau

## Diwygiad 3

Diweddarwyd gan (Enw a Theitl): B Pomeroy and P Osborne (EHO)

Dyddiad: September 2023

Diweddariadau’n cynnwys:

- Rheoliadau am Ddiogelwch Bwyd a Safonau Bwyd
- Ymyraethau wedi’u targedu
- Cosbau Ariannol Penodol
- Rhybuddion Cosb Benodedig a Rhybuddion Cosb Benodedig ar gyfer Anhrefn
- Gofynion Dewisol
- Rôl Gorfodi wedi’i Rhannu
- Cosbau Gorfodi Eraill

# Cynnwys


## 1. Cyflwyniad 6

## 2. Ein Dulliau Gweithio 7

2.1 Sut byddwn yn gweithio'n ymarferol? 7

## 3. Rheolaeth Effeithiol 8

3.1 Cefnogi Ffyniant Economaidd 8

3.2 Defnyddio Dulliau Effeithiol o Asesu Risgiau 8

3.3 Canolbwyntio ar Atal 9

3.4 Targedu Ymweliadau Archwilio ac Ymyraethau eraill 10

3.5 Prosesau Adolygu ar gyfer Gwneud Cais am Wybodaeth 11

## 4. Cosbau Gorfodi Rheolaethol 12

4.1 Penderfynu cymryd camau gorfodi ffurfiol 12

4.2 Lefelau o Gamau Gorfodi 12

4.3 Rhybuddion Statudol (Cyfreithiol), Gorchmynion a Gwaith a Wnaed yn Ddiofyn 13

4.4 Ymgymeriadau Gwirfoddol Ysgrifenedig a Gorchmynion Gorfodi 14

4.5 Cosbau Ariannol Penodedig 14

4.6 Rhybuddion Cosb Benodedig 14

4.7 Gofynion Dewisol 14

4.8 Rhybuddion Syml 15

4.9 Erlyniadau 15

4.10 Rôl Gorfodi wedi'i Rhannu 17

4.11 Gorfodi o fewn Sefydliadau sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod Lleol 17

4.12 Enillion Troseddau a Chosbau Gorfodi Eraill 17

4.13 Cosbau Gorfodi Eraill 17

5. Egwyddorion Cyffredinol Ymddygiad Swyddogion 19

6. Atebolrwydd Clir ar gyfer ein Penderfyniadau a'n Camau Gweithredu 20

7. Gweithdrefn Gwyno 20

8. Adborth a Sylwadau 20

9. Atodiad A 21

9.1 Polisïau Rheoleiddio sy'n benodol i 'faes pwnc' 21

# 1. Cyflwyniad

Mae rheoliadau wedi'u targedu sy'n cael eu harwain gan wybodaeth yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo tegwch ac amddiffyniad rhag niwed. Mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cydnabod yn llwyr fod angen i reoliadau fod yn gymesur ac yn hyblyg. Mae angen rheoleiddwyr da ar fusnesau, ac mae rheoleiddwyr da yn gweithio'n adeiladol gyda busnesau i sicrhau cystadleuaeth dda, a chefnogi economïau lleol sy'n ffynnu. Mae'r polisi'n gymwys i'r gwaith gorfodi rydym yn ei gyflawni gyda'r cyhoedd hefyd. Pan fo'n briodol, byddwn yn rhannu cyngor a gwybodaeth gyda'r cyhoedd. Serch hynny, dan rhai amgylchiadau, efallai bydd camau gorfodi uniongyrchol yn angenrheidiol. Bydd camau gorfodi o'r fath ond yn cael eu cymryd pan mae'r adrannau perthnasol yn y polisi hwn wedi cael eu hystyried.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo dulliau effeithlon ac effeithiol o gynnal archwiliadau rheoleiddiol, a chamau gorfodi sy'n hyrwyddo canlyniadau rheoleiddio allweddol heb osod unrhyw feichiau diangen.

Nodau Rheolaethol Allweddol:

- llai o anghydraddoldebau iechyd;
- llai o achosion o wenwyn bwyd neu glefydon anifeiliaid;
- llai o ddamweiniau, anafiadau neu salwch a achosir gan waith;
- llai o lygredd neu drosedd amgylcheddol arall;
- cymunedau mwy diogel a chryfach;
- safonau cydymffurfiaeth busnes gwell.

O ganlyniad, byddwn yn mabwysiadu dull cadarnhaol, rhagweithiol a chytbwys o weithio i sicrhau cydymffurfiaeth. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfuniad o:

- Gyngor, gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth i fusnesau a'r cyhoedd, sy'n adlewyrchu anghenion a disgwyliadau; a
- Ymyraethau a arweinir gan wybodaeth sydd wedi'u targedu ac sy'n gymesur, lle mae achosion o dorri rheolau'n cael eu nodi.

Mae'r polisi'n amlinellu sut rydym yn cynnig i fewnosod yr egwyddorion hyn i'n hymarferion. Rydym yn disgrifio ein dull cyffredinol o weithio a'r amgylchiadau y mae cosbau rheoleiddio difrifol megis erlyniad yn cael eu hystyried a'u cymhwyso fel bod preswylwyr lleol a dinasyddion yn deall yn llawn ein dulliau o reoleiddio'n effeithiol yn Wrecsam.

Rydym wedi datblygu polisïau effeithiol i fynd i'r afael â gweithgarwch troseddol a fyddai'n cael effaith niweidiol ar fusnesau cyfreithlon, ac wrth gyflawni'r canlyniadau rheoleiddio dymunol. Serch hynny, mae yna ddisgwyliad bod busnesau cyfreithlon yn gweithio gyda rheoleiddwyr i wella safonau masnach, ac o ganlyniad, yn cefnogi cyflawniad canlyniadau rheolaethol.

Mae'r polisi'n canolbwyntio'n bennaf ar reoleiddio'r gymuned o fusnesau, ond mae nifer o swyddogaethau rheoleiddio yn cynnwys camau gorfodi yn erbyn unigolyn, e.e. baw cŵn, taflu sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Pan mae camau gorfodi'n cael eu hystyried yn erbyn unigolion, byddwn yn ystyried yr egwyddorion perthnasol a'r safonau a amlinellir yn y polisi hwn.

Mae'n rhaid darllen y polisi ar y cyd gyda pholisïau sy'n trafod meysydd pwnc, gyda rhestr o'r rhain yn wedi'u hatodi yn Atodiad A; mae'r rhestr yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd wrth i bolisïau gael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu, neu wrth i bolisïau gael eu hadolygu.

# 2. Ein Dulliau Gweithio

## 2.1 Sut byddwn yn gweithio'n ymarferol?

Rydym wedi mabwysiadu egwyddorion cymeradwy o gamau orfod effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

### Bod yn Agored

Byddwn yn darparu gwybodaeth mewn iaith glir a syml, gan esbonio sut rydym yn bwriadu cefnogi busnesau a'r cyhoedd er mwyn diogelu defnyddwyr a dinasyddion.

### Bod o Gymorth

Rydym yn credu bod atal yn well na datrys, ac felly byddwn yn archwilio ffyrdd i annog busnesau a'r cyhoedd i ofyn am gymorth a chyngor, fel eu bod yn gallu 'gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf'.

### Ymateb yn gadarnhaol i gwynion am ein gwasanaeth a'n dulliau o weithio

Yn ddelfrydol, os ydym ni'n cael y dull gweithio'n iawn, ni ddylem gael llawer o gwynion, ond mae gennym lwybr clir ar gyfer adrodd, a gobeithio gyda hynny datrys cwynion yn foddhaol.

### Cymryd camau gweithredu cymesur a synhwyrol pan mae achosion o dor cyfraith yn cael eu nodi

Byddwn yn sefydlu'r ffeithiau a'r amgylchiadau sy'n arwain at yr achos o dor cyfraith byddwn yn ystyried camau gweithredu i'w cymryd er mwyn lleihau effaith y dor cyfraith, a byddwn yn asesu'r dull arfaethedig i gymryd er mwy osgoi achosion pellach o dor cyfraith yn y dyfodol, fel rhan o'n hystyriaethau ynghylch cosbau posib.

### Bod yn eg ac yn gyson

Byddwn yn sicrhau bod ein polisïau a'n hymarferion yn cael eu deall yn llwyr, a'u cymhwyso gan ein swyddogion ar lawr gwlad. Byddwn yn buddsoddi yn eu haddysg a'u datblygiad, ac er ein bod yn disgwyl i'n pobl weithredu disgresiwn a gweithio gyda lefelau uchel o arferion proffesiynol, rydym wedi datblygu prosesau diogelu i sicrhau bod ein polisïau a'n harferion yn cael eu cymhwyso'n deg ac yn gyson. Mae'r dull hwn o weithio'n cynnwys trafod yn effeithiol gydag asiantaethau rheoleiddio a gorfodi eraill, a glynu at y canllawiau cenedlaethol diweddaraf, yn ogystal â'r arferion gorau.

# 3. Rheolaeth Effeithiol

## 3.1 Cefnogi Ffyniant Economaidd

Mae rheolaeth a chamau gorfodi effeithiol yn hanfodol ar gyfer cefnogi ffyniant economaidd. Mae rheoleiddwyr da'n ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar ffyniant economaidd a'r effaith y mae'r ddau yn eu cael ar fusnesau unigol a'r economi leol os ydynt yn cael y cydbwysedd rhwng rheoleiddio a gorfodi'n anghywir. O ganlyniad, mae'r polisi gorfodi hwn a'r ffordd y mae'n cael ei weithredu'n llawn yn ystyried yr angen i gefnogi busnesau cyfreithiol drwy raglen o gyngor a gwybodaeth effeithiol yn y cychwyn cyntaf i 'helpu busnesau gael pethau'n gywir y tro cyntaf'. Mae'r dull hwn o weithio yn cynnig manteision ar gyfer rheoleiddwyr a busnesau. Ein dull yw 'mae atal yn well na datrys':

Bydd ein dull yn cynnwys:

a) Gweithio'n rhagweithiol i ddatblygu perthnasau adeiladol y gellir ymddiried ynddynt gyda busnesau lleol, a chyda busnesau newydd yn benodol, fel eu bod yn teimlo'n hyderus i ofyn am gymorth os yw pethau'n mynd o'i le, yn hytrach na chuddio pethau a gwneud y sefyllfa'n waeth.

b) Deall ac ystyried maint, cymhlethdod a chwmpas gweithrediadau busnes i ddarparu lefel briodol a chymesur o gyngor a chefnogaeth, yn enwedig ystyried effaith rheoliadau ar fusnesau bach a chanolig

c) Ymgynghori gyda busnesau lleol, gan nodi eu hanghenion, disgwyliadau a darparu lefel briodol o gyngor a chefnogaeth i fodloni neu fynd tu hwnt i'r disgwyliadau hynny

d) Darparu cyngor busnes ymatebol ac effeithiol fel y gall busnesau gael mynediad i bobl o ansawdd uchel i'w helpu gyda chydymffurfio â'r gyfraith drwy ddarpariaeth cyngor synhwyrol a phragmatig

e) Defnyddio ymyraethau wedi'u targedu ac wedi'u harwain gan wybodaeth, yn seiliedig ar asesiadau risg, fel bod adnoddau'n cael eu dargyfeirio'n briodol i'r maes risg pennaf

f) Datblygu system effeithiol ar gyfer datrys anghydfodau, fel bod y canlyniadau rheolaethol cywir yn cael eu cyflawni, heb greu baich diangen i fusnesau

g) Adolygu ein polisïau, strategaethau ac ymarfer yn systematig ac yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac effeithiol wrth gyflawni canlyniadau rheolaethol hen osod beichiau diangen ar fusnesau.

## 3.2 Defnyddio Dulliau Effeithiol o Asesu Risgiau

Bydd asesiadau risg effeithiol yn gweithredu fel canllaw ar gyfer yr holl weithgarwch rheoleiddio a gorfodi. Bydd yn nodi sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i ganolbwyntio ar feysydd risg uchel fel eu bod yn cael eu defnyddio i'r eithaf wrth gefnogi busnesau a diogelu defnyddwyr, ac felly'n arwain at ganlyniadau rheolaethol gwell.

Byddwn yn defnyddio'r asesiad risg i:

a) Nodi tebygolrwydd risgiau sylweddol i iechyd, diogelwch neu les pobl a chymunedau lleol, yr amgylchedd, masnach deg a ffyniant economaidd; a
b) Sicrhau bod ein camau gweithredu ac ymyraethau'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o'r dystiolaeth orau ar gael, fel bod adnoddau yn cael eu targedu'n effeithiol, a'u bod yn llwyddiannus yn lleihau'r risgiau mwyaf i bobl a chymunedau lleol, yn ogystal â busnesau cyfreithlon.

Mae ein fframwaith asesiad risg yn cynnwys asesiad o effaith gyfunol:

a) effaith posib peidio cydymffurfio ar ganlyniadau rheolaethol; a
b) tebygolrwydd o achosion o beidio cydymffurfio'n digwydd

Bydd ein dull sy'n cael ei arwain gan wybodaeth ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn nodi datblygiad rhaglen o archwiliadau wedi'u trefnu.

Wrth werthuso'r tebygolrwydd o beidio cydymffurfio, byddwn yn ystyried y ffactorau canlynol:

a) lefelau cydymffurfio blaenorol o ran y busnes a nodi risgiau posib yn y dyfodol;
b) bodolaeth systemau rheoli risg effeithiol;
c) tystiolaeth o asesiadau trydydd parti rheolaidd ac effeithiol; a
d) gallu i reoli a pharodrwydd i gydymffurfio.

Ar gyfer rheoliadau am Ddiogelwch Bwyd / Safonau Bwyd. Mae safonau gorfodi ar gyfer Awdurdodau Bwyd wedi'u nodi yn y Canllawiau a Chodau Ymarfer perthnasol a ddyrannwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, gyda gweithdrefnau'r Cyngor yn seiliedig arnynt.

Ar gyfer materion gorfodi sy'n berthnasol i Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, bydd y Model Rheoli Gorfodaeth yn cael ei ddefnyddio fel fframwaith lle bo'n briodol, a Datganiad Polisi Gorfodi'r Gweithredwr Iechyd a Diogelwch yn cael ei ystyried hefyd. Mae gan y Cyngor Bolisi Gorfodi Iechyd a Diogelwch penodol.

## 3.3 Canolbwyntio ar Atal

Un o'r pethau rydym yn canolbwyntio arnynt yn ein dull o atal yw datblygu perthnasau gwaith cadarnhaol ac adeiladol gyda busnesau drwy rwydweithiau a chysylltiadau sydd eisoes yn bodoli. Rydym yn cydnabod y gall busnesau bach, yn benodol deimlo dan bwysau gan raddfa a chymhlethdod deddfwriaeth sy'n berthnasol i weithgareddau eu busnes.

Pan rydym yn ymdrin â busnesau, rydym yn bwriadu:

a) pan fo'n angenrheidiol ac yn briodol, darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau sy'n seiliedig ar y sector;
b) darparu gwybodaeth gyffredinol, cyngor a chanllawiau i'w gwneud yn haws i fusnesau ddeall a gweithredu beth sydd angen i'w wneud;
c) sicrhau bod y wybodaeth, cyngor a chanllawiau yr ydym yn eu darparu yn syml, yn glir ac yn gryno, ac ar gael mewn ystod o fformatau a chyfryngau; ac

d) asesu ansawdd a hygyrchedd ein gwybodaeth cyngor a chanllawiau'n rheolaidd ac yn systematig i sicrhau eu bod yn gywir, dibynadwy ac yn addas at y diben drwy asesu lefel boddhad gyda busnesau.

Byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol penodol, a chanllawiau/arferion gorau sydd wedi'u hanelu at ddarparu gwelliannau uwchben safonau gofynnol wrth ymdrin â busnesau. Serch hynny, byddwn yn annog busnesau i ymgeisio i gyflawni safonau uwch, ac i helpu i gefnogi'r sawl sy'n dymuno gweithredu'r dull hwn.

Bydd gwasanaethau cyngor yn cael eu darparu am ddim yn gyffredinol. Pan mae ffioedd yn gymwys, byddwn yn gwneud hyn yn glir cyn darparu unrhyw un o'r gwasanaethau hyn. Er enghraifft, mae ein perthnasau Prif Awdurdod yn wasanaeth cynghorol am ffi.

## 3.4 Targedu Ymweliadau Archwilio ac Ymyraethau eraill

### Dim archwiliad heb reswm dilys

Byddwn yn ceisio peidio cynnal ymweliadau archwilio ar safle busnes ac eithrio bod rheswm penodol a chyfiawn er mwyn gwneud hynny. Bydd unrhyw ymweliadau archwilio wedi'u trefnu'n cael eu nodi gan ddefnydd fframwaith asesiad risg cadarn a thryloyw. Bydd y fframwaith asesiad risg yn cael ei ddefnyddio i ddyrannu adnoddau a dargyfeirio archwiliadau pan fo'n briodol. Mae enghreifftiau o archwiliadau y gellir eu cynnal yn cynnwys i fridwyr a lletywyr anifeiliaid trwyddedig, prosesau diwydiannol, cyflenwadau dŵr preifat, Tai Amlfeddiannaeth a safleoedd sydd wedi'u cofrestru ar gyfer bwyd.

### Adborth amserol ac effeithiol

Ar ddiwedd ymweliad, bydd ein swyddogion yn rhoi diweddariad ar lafar o'i ganfyddiadau er mwyn dod i gytundeb ar gamau gweithredu cywirol arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys amlinelliad o arferion da, yn ogystal â meysydd i wella. Pan fo'n briodol, bydd cyngor, canllawiau neu gyfarwyddiadau penodol yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig.

### Ymweliadau Archwilio ar y Cyd

Byddwn yn ceisio cydlynu ein rhaglenni archwilio fel nad yw busnesau'n cael sawl archwiliad, pan fo hyn yn synhwyrol ac yn ymarferol. Byddwn yn datblygu ein rhaglenni archwilio i sicrhau ein bod yn cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng darparu'r wybodaeth a'r cyngor cywir ar yr adeg iawn, yn erbyn yr angen i osgoi cyswllt gydag archwilwyr arbenigol gwahanol. Byddwn yn gweithio ar y cyd gydag asiantaethau rheoleiddio eraill i sicrhau pan fo'n ymarferol, nad yw ein rhaglenni archwilio priodol yn achosi beichiau diangen ar fusnesau. Bydd hyn yn cynnwys datblygu protocolau rhannu gwybodaeth ac archwilio, pan gellir cyflawni canlyniadau rheolaethol drwy ddull ymweliadau archwilio ar y cyd. Enghraifft o hyn yw cynnal archwiliadau hylendid / safonau bwyd gyda'r tîm tai, a'r gwasanaeth tân pan fo llety uwchben.

### Ymyraethau wedi'u targedu

Bydd y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn dargyfeirio gweithgarwch rheolaethol a gorfodi yn bennaf tuag y busnesau hynny y mae eu gweithgareddau yn peri'r risg fwyaf, lle mae risgiau yn cael eu rheoli llai, neu pan mae dioddefwyr posib yn cael eu hystyried yn ddiamddiffyn.

Bydd camau gweithredu'n canolbwyntio'n bennaf ar y sawl sy'n uniongyrchol gyfrifol am y risg a sefydlu pwy fyddai orau i'w rheoli.

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i flaenoriaethu ymdrech rheolaethol, a defnyddio adnoddau o ystod o ymyraethau.

### Ymarfer prynu sampl/prawf

Pwrpas y pryniant sampl/prawf yw diogelu iechyd y cyhoedd, at ddibenion cadw golwg ar y farchnad, adnabod troseddau ac atal achosion o dorri rheoliadau. Mae pryniant sampl/prawf yn cael ei gynnal mewn ymateb i ymholiadau/cwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth, fel rhan o ymarferion wedi'u trefnu neu oherwydd menter ragweithiol swyddog. Mae ymarferion wedi'u trefnu'n cael eu pennu'n seiliedig ar asesiad risg, gwybodaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol, ystadegau a rhaglenni cydlynol, gan ganolbwyntio ymdrechion i feysydd masnach neu nwyddau, i sicrhau'r defnydd adnoddau mwyaf effeithiol posib.

## 3.5 Prosesau Adolygu ar gyfer Gwneud Cais am Wybodaeth

### Cadw Ceisiadau am Wybodaeth mor isel â phosib

Byddwn yn sicrhau ein bod yn ceisio peidio gofyn i fusnesau am wybodaeth ac eithrio ei bod yn hollol angenrheidiol i wirio cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth allweddol, a byddwn yn datblygu systemau gwybodaeth i geisio osgoi unrhyw sefyllfaoedd lle rydym yn gofyn am yr un wybodaeth mwy nac unwaith.

### Cynnig dewis yn y ffordd mae busnesau'n gallu darparu gwybodaeth

Lle bo gwybodaeth yn cael ei darparu, byddwn yn ceisio sicrhau bod y systemau a'r prosesau ar gyfer darparu gwybodaeth o'r fath yn glir, yn syml ac yn hygyrch. Yn benodol, byddwn yn datblygu rhaglenni priodol sydd ar y rhyngrwyd i ganiatáu ar gyfer cyflwyno'n electronig, ac i gynnig dewis o lwybrau mynediad yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddisgwyliadau busnes.

### Diogelu Data

Byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw wybodaeth neu ddata sydd wedi'i gofnodi yn gywir, wedi'i wirio'n rheolaidd ac yn ddiogel.

### Defnyddio Camau Gorfodi wedi'i Dargedu a'i arwain gan Wybodaeth

Rydym yn cydnabod bod y mwyafrif o fusnesau yr ydym yn dod i gyswllt â hwy yn gyfreithlon ac eisiau trafod yn adeiladol gyda rheoleiddwyr. Rydym wedi disgrifio bod ein dull atal yn cynnwys cyngor, gwybodaeth a chanllawiau i'r grŵp hwn o fusnesau. Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod, fel y rhan helaeth o'r gymuned busnes, nad oes lle i'r sawl sy'n dymuno gweithredu tu allan i'r fframwaith rheoleiddio. O ganlyniad, bydd ein dull o weithio'n wahanol ar gyfer unigolion a busnesau sy'n:

a) gweithredu mewn modd twyllodrus neu'n annheg; a/neu

b) yn defnyddio arferion masnach annheg, ac yn peidio dilyn cyngor; a/neu

c) yn peryglu iechyd, diogelwch a lles gweithwyr, cwsmeriaid, defnyddwyr ac ymwelwyr; a/neu

d) yn peidio dilyn cyngor am ofynion cyfreithiol yn gyson, er gwaethaf ymdrechion sylweddol gan y rheoleiddiwr i sicrhau cydymffurfiaeth; a/neu

e) ceisio ennill mantais gystadleuol dros fusnesau cyfreithlon drwy arferion masnach twyllodrus, annheg neu beryglus.

# 4. Cosbau Gorfodi Rheolaethol

## 4.1 Penderfynu cymryd camau gorfodi ffurfiol

Pan mae'r dull o gynghori'n methu wrth sicrhau lefel briodol o gydymffurfiaeth, camau gorfodi ffurfiol fydd yn dod nesaf. Pan mae camau gorfodi ffurfiol yn cael eu hystyried (cam 3 isod), byddwn yn esbonio'r rhesymau dros y camau gweithredu hynny. Bydd penderfyniad i gymryd camau gorfodi ffurfiol ond yn cael eu cymryd ar ôl gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, ac eithrio pan mae achos o beidio cydymffurfio o natur difrifol iawn, a phan mae camau uniongyrchol yn angenrheidiol ac yn briodol. Bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei gyfathrebu mewn modd amserol ac effeithiol.

Wrth ystyried pa ffurf o gamau gorfodi i'w cymryd er mwyn cydymffurfio, mae'n rhaid ystyried, pan fo'n bosib, y Cynlluniau Mewnol, Arweiniol, Cychwynnol neu Brif Awdurdod. Yn benodol, os oes gan fusnes bartneriaeth Prif Awdurdod gydag Awdurdod Lleol (yn amodol ar eithriadau penodol) ni ddylid cymryd camau ffurfiol heb hysbysu'r Awdurdod Lleol, a chan ddilyn y gweithdrefnau i sefydlu a fyddai'r Awdurdod Lleol hwnnw'n bwriadu atal y camau gweithredu arfaethedig os yw'n gwrthdaro gyda Chyngor Prif Awdurdod a roddwyd i'r busnes.

## 4.2 Lefelau o Gamau Gorfodi

Pan fo tystiolaeth o beidio cydymffurfio'n gyfreithiol wedi'i sefydlu, bydd y dull canlynol o gamau yn cael ei ystyried:

### Cam 1: Hyrwyddo

Fel rhan o'n rhaglen barhaus o gyngor, gwybodaeth a chymorth, byddwn yn ceisio trafod mabwysiadu arferion da, ac yn cynyddu dealltwriaeth y busnes o'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau lefel gwell o gydymffurfiaeth. Bydd hyn yn cynnwys ystod eang o weithgareddau fel y disgrifir yn y ddogfen hon, a thrwy gyswllt uniongyrchol gyda busnesau a chymdeithasau masnach.

### Cam 2: Rhybuddion Anffurfiol

Bydd y cam hwn yn cael ei ddefnyddio pan mae tystiolaeth o beidio cydymffurfio, ond nid yw natur yr achos yn caniatáu camau gweithredu ffurfiol. Er enghraifft, efallai eu bod yn faterion technegol sy'n deillio o ddiffyg dealltwriaeth neu gamddealltwriaeth o'r cyngor, gwybodaeth neu ganllawiau a ddarparwyd. Bydd natur yr achos o beidio cydymffurfio ynghyd â chamau i ddatrys y sefyllfa yn cael eu hesbonio ar lafar, a'u cadarnhau yn ysgrifenedig gyda dyddiad cau er mwyn cwblhau'r camau cywirol. Bydd cyfle i uwch reolwr y busnes adolygu'r penderfyniadau hyn, os ydynt yn credu fod y rhybudd yn anghyfiawn neu amhriodol.

### Cam 3: Camau Gorfodi Ffurfiol

Mae hyn yn cynnwys dyrannu rhybuddion statudol, menter ysgrifenedig a rhybuddion gorfodi; gwrthod caniatâd ar gyfer dirymu neu gofrestriad; dosbarthu rhybuddion, rhybuddion cosb benodedig, rhybuddion cosb ar gyfer anhrefn a /neu erlyniad. Bydd y camau hyn yn cael eu cymryd yn unol â gweithdrefnau cyfreithiol statudol, codau ymarfer perthnasol ac unrhyw ganllawiau proffesiynol cenedlaethol. Yn ychwanegol at hynny, pan mae'r cyhoedd angen eu hamddiffyn rhag ymddygiad sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod, efallai bydd y Cyngor yn gofyn am Orchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, fel cam gweithredu unigol neu y dilyn euogfarn.

Pan mae achosion yn cael eu hystyried yn erlyniadau neu'n rhybudd syml, byddwn yn cymhwyso dau brawf: Prawf Tystiolaeth a Phrawf Lles y Cyhoedd. Ar gyfer y Prawf Tystiolaeth, byddwn yn bodloni ein hunain bod digon o dystiolaeth i ddarparu 'achos realistig o euogfarn' yn erbyn pob amddiffynnydd ar brawf. Dyma brawf gwrthrychol sy'n golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon, a gyfarwyddir yn briodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. Mae'n rhaid ystyried Prawf Lles y Cyhoedd ym mhob achos lle mae digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn. Byddwn yn pwyso a mesur ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus a theg. Mae ffactorau lles y cyhoedd fel arfer yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd neu amgylchiadau'r sawl sydd dan amheuaeth.

## 4.3 Rhybuddion Statudol (Cyfreithiol), Gorchmynion a Gwaith a Wnaed yn Ddiofyn

Mae sawl deddfwriaeth sy'n cael eu gorfodi gan y Cyngor yn darparu ar gyfer gwasanaeth rhybuddion statudol. Mae'r rhybuddion hyn yn gofyn bod unigolyn, busnes neu sefydliad yn cydymffurfio gyda'r gofynion cyfreithiol penodol. Pan mae rhybudd ffurfiol yn cael ei wneud, bydd dull apelio yn erbyn y rhybudd (h.y. os yw'r derbynnydd yn teimlo fod y rhybudd yn anghyfiawn neu â gormod o ofynion) yn cael ei ddarparu'n ysgrifenedig ar yr un pryd. Bydd y rhybudd yn esbonio beth sydd wedi mynd o'i le, beth yw'r gofynion o ran gwneud yn iawn am bethau, ac yn amlinellu'r canlyniadau yn sgil peidio cydymffurfio gyda'r rhybudd.

Yn gyffredinol, bydd methiant i gydymffurfio â gorchymyn statudol sydd wedi'i ysgrifennu'n iawn yn golygu y gellid erlyn y sawl sy'n ei dderbyn. Mewn rhai achosion, mae'r Cyngor yn gallu, ac efallai bydd yn gwneud y gwaith sy'n ofynnol i gydymffurfio gyda'r rhybudd ac adennill cost gwneud hynny oddi wrth y sawl sy'n derbyn y rhybudd. Mewn rhai amgylchiadau, efallai bydd erlyn, a dyrannu rhybudd yn briodol. Gellir adennill costau drwy bridiannau tir lleol, pan fo'n bosib.

Mae deddfwriaeth benodol yn gofyn bod cais am Orchymyn yn cael ei wneud yn y llys, gyda throseddwyr yn cymryd camau penodol neu'n dod â gweithgareddau i ben. Mae'r mathau hyn o gamau gorfodi yn gofyn bod gweithgareddau'n dod i ben yn unswydd pan mae amgylchiadau yn berthnasol i iechyd, diogelwch, difrod amgylcheddol neu ofyniad niwsans. Dan amgylchiadau eraill, bydd yr amser a ganiateir yn rhesymol, gan ystyried difrifoldeb y toriad cyfraith, goblygiadau peidio cydymffurfio, ac unrhyw gyfnod apêl.

## 4.4 Ymgymeriadau Gwirfoddol Ysgrifenedig a Gorchmynion Gorfodi

Pan mae unigolyn neu sefydliad yn methu â chydymffurfio gyda'r gyfraith yn rheolaidd, bydd y Cyngor yn gofyn am ymgymeriad ysgrifenedig gan yr unigolyn, eu bod yn bwriadu dod â'r weithred sydd wedi achosi cwyn i ben a/neu y bydd toriad cyfraith yn cael ei gywiro a/neu ei atal rhag digwydd eto. Dan y fath amgylchiadau, efallai byddai'r Cyngor yn pennu nad oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

Mewn achosion pan mae unigolyn neu sefydliad wedi torri rheoliadau, neu wrthod darparu ymgymeriad ysgrifenedig i ddod â'r weithred a arweiniodd at y gŵyn i ben gellir gwneud cais i'r llys am orchymyn gorfod, neu gellir cymryd camau gweithredu ffurfio eraill yn unol â'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol.

## 4.5 Cosbau Ariannol Penodedig

Mae gan yr Awdurdod bwerau dan ddeddfwriaethau penodol i ddyrannu Cosbau Ariannol Penodedig, nad ydynt i fod i gael eu defnyddio ar gyfer achosion mwy difrifol o beidio cydymffurfio. Nid yw Cosbau Ariannol Penodedig yn ddirwyon troseddol, ac nid ydynt yn ymddangos ar gofnod troseddol unigolyn. Nid oes modd defnyddio Cosbau Ariannol Penodedig ar y cyd gydag unrhyw gosbau eraill. Mae ffurf a chynnwys y fath rhybuddion yn amrywio rhwng gwahanol ddeddfwriaethau, ond yn gyffredinol byddant yn cynnwys manylion o'r drosedd, swm y gosb, y cyfnod pan na fydd achos cyfreithiol yn digwydd, sut i apelio a lle i dalu. Fel arfer, bydd y ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r awdurdod ddiwygio neu dynnu'r fath rybuddion yn ôl os yw'n briodol gwneud hynny.

## 4.6 Rhybuddion Cosb Benodedig

Pan mae deddfwriaeth yn caniatáu i drosedd gael ei drin drwy Rybudd Cosb Benodedig, efallai byddwn yn dewis ei ddosbarthu ar gyfer trosedd gyntaf a/neu gymharol fechan. Nid oes gofyniad i rybuddio cyn cymryd y cam gweithredu hwn, gan fod 'rhain yn gamau adferol a gyflwynwyd gan y Llywodraeth fel mecanwaith rhybuddio sy'n caniatáu osgoi erlyniad.

Mae Rhybuddion Cosb Benodedig yn cynnig rhyddhau'r drosedd yn hytrach na wynebu erlyniad, ac o ganlyniad, bydd peidio talu yn arwain at erlyniad, ac eithrio bod tystiolaeth i ddangos amgylchiadau arbennig.

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio gydag unrhyw ganllawiau perthnasol ar ddefnydd Rhybuddion Cosb Benodedig. Yn benodol, bydd yr amodau canlynol yn cael eu bodloni:

a) rhaid bod tystiolaeth ddigonol i roi gobaith realistig o euogfarn;

b) nid yw'r drosedd yn rhy ddifrifol ac o natur sy'n addas i gael ei thrin gyda rhybudd cosb benodedig.

## 4.7 Gofynion Dewisol

Dan ddeddfwriaeth benodol, mae gan yr awdurdod y pŵer i rannu Cosbau Ariannol Amrywiol a Gofynion Dewisol nad ydynt yn Ariannol.

### Bydd Cosbau Ariannol Amrywiol

Yn cael eu rhannu i uchafswm a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

### Bydd Gofynion Dewisol nad ydynt yn Ariannol

An ofynion i gymryd camau i sicrhau nad yw tor cyfraith yn parhau neu'n ailadrodd. Pan mae awdurdod yn dewis rhannu Gofynion Dewisol nad ydynt yn Ariannol, bydd yn nodi'n glir beth ddylai'r camau hynny fod, a'r cyfnod amser i'w cwblhau. Bydd methiant i gydymffurfio gyda'r gofynion yn debygol o arwain at gosba ariannol.

Efallai bydd yr Awdurdod yn defnyddio Cosbau Ariannol Amrywiol a Gofynion Dewisol nad ydynt yn Ariannol ar y cyd.

Os yw'r Llywodraeth yn gosod cosbau ychwanegol sydd ar gael i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, byddwn yn cydymffurfio gyda'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer eu defnydd a darparu canllawiau ar sut y byddwn yn defnyddio'r cosbau.

## 4.8 Rhybuddion Syml

Dan rhai amgylchiadau, gall rhybudd fod yn ddewis priodol yn hytrach nag erlyniad. Bydd y dewis hwn yn cael ei ystyried cyn erlyniad. Mae derbyn rhybudd yn fater difrifol, a gellir eu defnyddio i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad i gynnal achos cyfreithiol ai peidio, os yw'r unigolyn (cwmni neu endid cyfreithiol tebyg) yn troseddu eto. Gellir cyfeirio ati mewn unrhyw achos llys dilynol.

Mae rhybuddion yn cael eu dyrannu at y dibenion canlynol:

a) ymdrin â throseddau gymharol fychan yn gyflym ac yn syml;

b) osgoi unrhyw ymddangosiad diangen mewn llysoedd troseddol;

c) lleihau'r tebygolrwydd o droseddwyr yn aildroseddu.

Byddwn yn cydymffurfio gyda chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar roi rhybudd i oedolion sy'n troseddu, ac yn benodol cyn rhoi rhybudd, mae'n rhaid bodloni'r amodau canlynol:

a) rhaid bod tystiolaeth ddigonol o fod yn euog i roi gobaith realistig o euogfarn;

b) mae'n rhaid i'r troseddwr dan amheuaeth gyfaddef i'r drosedd, gan lofnodi datganiad fel arfer;

c) mae'n rhaid i'r troseddwr dan amheuaeth ddeall arwyddocâd y rhybudd a

d) rhoi caniatâd deallus i'r rhybudd.

## 4.9 Erlyniadau

Bydd y Cyngor yn defnyddio disgresiwn wrth bennu i gychwyn erlyniad ai peidio. Pan mae'r amgylchiadau'n ei gyfiawnhau, gellir cychwyn erlyniad heb rybudd.

Bydd y Cyngor yn ystyried erlyniad pan:

a) mae'n briodol dan yr amgylchiadau, ei ddefnyddio fel ffordd o dynnu sylw at yr angen i gydymffurfio gyda'r gyfraith, yn enwedig pan fyddai disgwyliad arferol o erlyniad, neu,

b) drwy gael troseddwyr eraill yn euog, gall hyn atal eraill rhag troseddu; neu

c) pan mae perygl bod niwed sylweddol yn codi o'r achos o dorri'r rheolau; neu

d) mae graddfa'r drosedd, ar y cyd gyda chofnod cyffredinol a dull y troseddwr yn ei gyfiawnhau.

Bydd y penderfyniad o erlyn o hyd yn ystyried y meini prawf yng 'Nghod Gwasanaeth Erlyn y Goron'.

Cyn penderfynu erlyn ai peidio, mae'n rhaid cael digon o dystiolaeth ar gyfer gobaith realistig o euogfarn, gan ystyried unrhyw amddiffyniad sydd ar gael, ac mae'n rhaid iddo fod er lles y cyhoedd.

Bydd y meini prawf lles y cyhoedd canlynol yn cael ei ystyried wrth bennu perthnasedd achos cyfreithiol, er nid yw'r rhestr hon yn gyflawn:

- Math cyffredinol y drosedd
- Yr angen am ffordd addas o atal
- Y risg o berygl neu anaf i'r cyhoedd
- Methiant i gydymffurfio gyda rhybudd statudol neu ymateb i gyngor am ofynion cyfreithiol
- Anwybyddu gofynion cyfreithiol ar gyfer gwobr ariannol
- Colled ariannol sylweddol, posib neu wirioneddol, i drydydd parti
- Hanes o droseddau tebyg
- Torri'r gyfraith dro ar ôl tro
- Pan mae twyll, esgeulustod difrifol neu wybodaeth euog yn ffactor
- Torri cyfreithiau nifer o statudau

Lle bo modd, bydd troseddwr yn cael gwybod cyn gynted ag y ceir tystiolaeth ddigonol y gall erlyniad ddigwydd. Bydd pob erlyniad yn cael eu dwyn heb oedi diangen.

Bydd y Cyngor yn bwriadu gwneud y mwyaf o'i effeithiolrwydd drwy weithio gydag awdurdodau neu asiantaethau eraill pan fo'n briodol, gan rannu gwybodaeth pan fo'n gyfreithiol gwneud hynny, a chynnal gweithrediadau ar y cyd pan fo budd gwneud hynny.

Mae asiantaethau allanol yr ydym yn gweithio â hwy yn cynnwys:

- Yr Heddlu
- Asiantaeth yr Amgylchedd / Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Y Comisiwn Gamblo
- Yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr - VOSA
- Y Gwasanaeth Tân
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Yr Adran Cyllid a Thollau
- Defra / Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Swyddfa Masnach Deg
- Asiantaeth Adfer Asedau
- Yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur
- Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Gorfodaeth cangen sefydliadau gwarchod masnach megis y Ffederasiwn yn erbyn Dwyn Hawlfraint
- Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

## 4.10 Rôl Gorfodi wedi'i Rhannu

Mae sefyllfaoedd pan mae Awdurdod yn rhannu, neu â rôl gorfodi ar y cyd gydag asiantaethau eraill, e.e. yr Heddlu, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Yn y fath sefyllfaoedd, byddwn yn rhoi sylw dyledus i Ddeddf Diogelu Data 2018, ac unrhyw Brotocolau Rhannu Gwybodaeth, neu Femoranda Dealltwriaeth sy'n bodoli wrth geisio cydweithio gyda'r asiantaethau hynny.

Ar brydiau, bydd yn fwy priodol i asiantaethau neu awdurdodau lleol eraill ymdrin ag achosion o dorri deddfwriaeth. Wrth gynnal dyletswyddau ar y cyd, byddwn yn parhau i gydymffurfio gyda'n Polisi Gorfodi, ond bydd yr asiantaethau eraill yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau y maent yn eu hystyried i fod yn angenrheidiol.

Os yw troseddwr yn cyflawni trosedd mewn nifer o ardaloedd yn yr awdurdod lleol, efallai y byddai'n briodol bod un yn erlyn ar gyfer yr holl droseddau, gan gynnwys y rhai a gymerwyd lle tu allan i'w ardal. Dan y fath amgylchiadau, efallai byddwn yn mynd i gytundeb cyfreithiol gydag un awdurdod i gymryd rôl arweiniol, gan ddefnyddio darpariaethau dan Adrannau 19 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a 222 Deddf Llywodraeth Leol 1972, neu unrhyw bwerau galluogi eraill.

Pan mae achos o dorri'r gyfraith yn arwain at farwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith, byddwn yn trafod gyda'r Heddlu, y Crwner, a Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac os oes tystiolaeth o ddynladdiad (gan gynnwys dynladdiad corfforaethol) yn pasio'r achos i'r Heddlu, neu pan fo'n briodol, Gwasanaeth Erlyn y Goron.

## 4.11 Gorfodi o fewn Sefydliadau sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod Lleol

Gorfodi o fewn Sefydliadau sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod Lleol (neu ar safle cysylltiedig). Pan mae Awdurdod yn cymryd camau gorfodi ar gyfer ei safleoedd ei hun, mae camau yn cael eu cymryd i sicrhau bod penderfyniadau gorfodi'n rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau. Bydd achosion difrifol o dorri'r gyfraith yn mynd gerbron y Pennaeth Gwasanaeth/Prif Swyddog perthnasol, a'r Prif Weithredwr heb oedi.

## 4.12 Enillion Troseddau a Chosbau Gorfodi Eraill

Mewn achosion priodol, gellir gwneud cais dan Ddeddf Enillion Troseddau ar gyfer gwahardd asedau i adennill elw ariannol y mae'r troseddwr wedi'i gael o weithgareddau troseddol. Mae achosion cyfreithiol yn cael eu cynnal yn unol â safonau profi dinesig ac mae ceisiadau yn cael eu gwneud ar ôl euogfarn, ond cyn dedfrydu troseddwr.

## 4.13 Cosbau Gorfodi Eraill

### Carchariad, Atafaeliad a Fforffediad

Mae rhai deddfwriaethau'n caniatáu i Swyddogion Gorfodi awdurdodedig gadw nwyddau yn ystod y cyfnod ymchwilio a/neu atafaelu nwyddau, cyfarpar neu ddogfennau - er enghraifft: bwyd anniogel, cyfarpar sain sy'n cael ei ddefnyddio i achosi niwsans sŵn statudol, nwyddau anniogel, neu unrhyw nwyddau sydd eu hangen fel tystiolaeth mewn achos llys yn y dyfodol. Pan rydym yn atafaelu nwyddau, byddwn yn rhoi derbynneb i'r unigolyn y mae'r nwyddau yn cael eu cymryd oddi arnynt ac yn ymdrin ag unrhyw nwyddau o'r fath yn unol ag unrhyw ofynion deddfwriaethol perthnasol.

Gellir defnyddio fforffediad (neu ildiad gwirfoddol) fel dewis yn eu hanfod ei hun, neu ar y cyd gydag atafaelu ac/neu erlyniad, lle mae angen gwaredu nwyddau er mwyn eu hatal rhag mynd yn ôl i mewn i'r farchnad, neu eu defnyddio i achosi problem bellach.

### Camau Gwaharddol a Chosbau Sifil Eraill

Mewn rhai amgylchiadau, gellir defnyddio camau gwaharddol, er enghraifft, i ymdrin â throseddwyr ailadroddus; amgylchiadau peryglus; neu niwed i ddefnyddwyr / yr amgylchedd / iechyd y cyhoedd.

Dan ddeddf Menter 2002, bydd camau gweithredu'n cael eu hystyried pan mae llawer o achosion o dorri'r gyfraith, neu mae niwed cyfunol sylweddol i ddefnyddwyr, a gall 'rhain gynnwys ymgymeriadau anffurfiol drwy Orchmynion Llys neu Achosion Dirmyg.

### Dirymiad, Addasiad, Adolygiad a Gwahardd

Mae'r Awdurdod yn dosbarthu llawer o drwyddedau, dogfennau cofrestru, a chaniatâd. Mae ystod o gamau gweithredu ar gael mewn perthynas â'r rhain, yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth dan sylw.

Mae gan yr Awdurdod rôl i'w chwarae wrth sicrhau bod y safonau priodol yn cael eu bodloni mewn perthynas â thrwyddedau sy'n cael eu dosbarthu gan asiantaethau eraill. Mae'r mwyafrif o drwyddedau'n cynnwys amodau, sy'n gofyn bod deiliad y drwydded y cymryd camau i sicrhau bod y busnes yn cael ei gynnal yn gywir, er enghraifft. Gall torri amodau'r drwydded arwain at adolygu'r drwydded, ac o ganlyniad, ei dirymu neu ei haddasu. Mae gan y Cyngor Bolisi Trwyddedu penodol mewn perthynas â'r Ddeddf Trwyddedu.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am ddosbarthu Trwyddedau Amgylcheddol i weithredwyr sy'n cynnal mathau penodol o brosesau diwydiannol. Mae'r trwyddedau'n cynnwys amodau penodol a fwriedir i atal neu leihau llygredd. Mae pwerau gorfodi'n cynnwys dirymu a gwahardd trwyddedau, ac mewn achosion difrifol, erlyniad am beidio cydymffurfio gyda rhybudd gorfodi.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi caniatâd i sefydliadau bwyd penodol. Mae'r caniatâd yn awdurdodi ymdriniaeth mathau penodol o nwyddau o fewn sefydliad. Mae pwerau gorfodi'n cynnwys dirymu a gwahardd caniatâd.

### Tystysgrifau diogelwch

Mae gan y Cyngor Bolisi Diogelwch Meysydd Chwaraeon penodol

### Is-ddeddfau

Bydd Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn egwyddorion y Polisi Gorfodi hwn mewn perthynas ag is-ddeddfau gorfodaeth perthnasol, ac yn ystyried unrhyw ganllawiau sy'n benodol yn ymdrin â'r is-ddeddf.

### Derbyn Anifeiliaid

Dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, os yw milfeddyg yn nodi bod 'anifeiliaid a ddiogelir' yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef os nad yw hamgylchiadau'n newid, efallai byddwn yn ystyried eu derbyn, ac yn gwneud cais am ad-daliad ar gyfer y costau a'r gwarediad dilynol.

Yn ychwanegol at hynny, gellir atafaelu ceffylau a merlod sy'n cael eu canfod yn pori'n anghyfreithlon, neu sydd wedi'u gadael, a'u cadw, gan ofyn i berchnogion am gostau cysylltiedig. Os nad yw'r costau hyn yn cael eu talu, gall yr awdurdod gadw'r anifeiliaid a'u gwaredu, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol

### Casglu Tystiolaeth

Mae cyrff rheoleiddio wedi'u grymuso i gasglu tystiolaeth gan wahanol gyfryngau, gan gynnwys, pan fo'n briodol, yn gudd (heb i'r unigolyn/unigolion sy'n cael eu targedu wybod am yr oruchwyliaeth). Gellir defnyddio Teledu Cylch Caeëdig o bell a dyfeisiau recordio eraill. Ymhob achos, ceisir awdurdodiad priodol cyn ymgymryd â goruchwyliaeth gudd, yn unol â Deddf Rheoli Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA).

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi cael eu hystyried wrth lunio'r polisi hwn. Mae'n adlewyrchu gwerthoedd y Cyngor, ac mae'n unol â'r ddeddfwriaeth gwrth-wahaniaethu. Caiff ei gymhwyso'n unol â rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor waeth beth yw anabledd, rhywedd, hil, crefydd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol neu statws priodasol unigolyn, neu unrhyw seiliau eraill a all gael eu hystyried yn annheg neu'n gwahaniaethu'n afresymol.

Ni fydd y polisi hwn yn cael effaith niweidiol ar grwpiau lleiafrifol, a bydd y fath grwpiau'n cael yr un lefel o ddiogelwch rhag trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a bydd trosedd sy'n cael ei anelu'n benodol at grwpiau lleiafrifol yn cael ei drin yn briodol.

Bydd y Cyngor yn adolygu ein polisïau a'n harferion yn gyson, er mwyn sicrhau bod ymrwymiad parhaus o ran darparu gwasanaethau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau lleiafrifol.

## 5. Egwyddorion Cyffredinol Ymddygiad Swyddogion

Yn ychwanegol at yr egwyddorion yn y Polisi hwn, bydd swyddogion yn cynnal eu hunain yn broffesiynol ac yn gwrtais. Fel mae'r amgylchiadau'n caniatáu, bydd swyddogion yn cyhoeddi pwy ydynt ac ym mha capasiti y maent yn gweithredu i rywun mewn awdurdod yn y busnes. Serch hynny, bydd achlysuron lle mae swyddogion yn oedi wrth ddweud pwy ydynt yn gyfreithlon, nes camau pellach ymchwiliad, yn enwedig pan maent yn ymgymryd â gweithgareddau cudd wedi'u hawdurdodi. Bydd swyddogion yn cario, ac yn dangos cerdyn adnabod, neu awdurdodiad, fel y bo'n briodol.

Bydd swyddogion yn ymgysylltu ag unigolion a grwpiau mewn modd teg, yn adeiladol ac effeithiol, heb wahaniaethu.

Gellir darparu dogfennau mewn gwahanol gyfryngau, megis sain, print bras neu CD.

Byddwn yn sicrhau bod ein swyddogion yn llwyr ymwybodol o, ac wedi ymrwymo i, ddilyn y polisïau a'r egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon, drwy raglen o brosesau addysg a datblygu, ac adolygu rheolaeth. Ein nod yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n deg ac yn gyson ar draws meysydd gwasanaeth, fel ein bod yn cyflawni lefelau uchel o gydymffurfio.

# 6. Atebolrwydd Clir ar gyfer ein Penderfyniadau a'n Camau Gweithredu

Mae'r Cyngor wedi diffinio cynllun clir ar gyfer dirprwyo awdurdod mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddio a'r polisi gorfodi. Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn rhan o adran sy'n cael ei rheoli gan Brif Swyddog yr Economi a Chynllunio.

Mae Prif Swyddog yr Economi a Chynllunio a/neu Bennaeth Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn darparu cyngor a chefnogaeth broffesiynol i aelodau etholedig, yn ogystal ag arwain a rheoli'r gwasanaeth.

Mae cyfraniadau'r Gwasanaeth i Gynllun y Cyngor wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Gwasanaeth. Mae gwybodaeth berthnasol o Berfformiad Cynllun Gwasanaeth a threfniadau canlyniadau yn cael eu hadrodd i uwch reolwyr ac aelodau mewn modd sy'n briodol i'r maes gwasanaeth.

Cynhelir gwaith rheolaidd a systematig drwy gydol y flwyddyn er mwyn asesu lefelau boddhad, ac i dargedu gweithgareddau gwella, pan mae lefelau boddhad yn cael eu canfod i fod yn anfoddhaol.

Mae canlyniadau rheoleiddio'n cael eu diffinio o fewn Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor fel arfer. Mae cynlluniau gweithredol gwasanaeth yn amlinellu blaenoriaethau a gweithgareddau gweithredol ar gyfer y 12 mis nesaf.

# 7. Gweithdrefn Gwyno

Mae gan y Cyngor weithdrefn gwyno, os yw busnesau, neu aelodau'r cyhoedd yn dymuno cwyno am ansawdd y gwasanaeth maent wedi ei dderbyn. Pan nad oes modd datrys cwyn yn foddhaol drwy Weithdrefn Gwyno'r Cyngor, gall yr achwynydd wneud cwyn pellach i Ombwdsmon y Llywodraeth Leol.

# 8. Adborth a Sylwadau

Rydym yn croesawu adborth ar hyn, neu unrhyw un o'n polisïau. Gall y Polisi hwn fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau a chyfryngau ar gais.

Cyfeiriwch unrhyw adborth neu sylwadau ar y Polisi Gorfodi hwn at Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

## 8.1 Cysylltwch â ni

**Cyfeiriad**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Pennaeth Gwasanaeth - Gwarchod y Cyhoedd,
Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY

**Ffôn**

01978 298989

**E-bost**

public_protection_service@wrexham.gov.uk

# 9. Atodiad A

## 9.1 Polisïau Rheoleiddio sy'n benodol i 'faes pwnc'

- Polisi Gorfodi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Trwyddedu
- Polisi Gamblo
- Polisi Diogelwch Meysydd Chwaraeon
- Polisïau a Gweithdrefnau Gorfodi Bwyd
- Polisi Trwyddedau Tai Amlfeddiannaeth

Lle bo'n briodol, mae gweithdrefnau adrannol mewnol a Chodau Ymddygiad ar waith ar gyfer gwahanol agweddau ar ddarparu gwasanaethau.